Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Y Cyfansoddiad – Prif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru

**Ebrill 2007**

## Cyflwyniad

Ym 1999, sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel un corff corfforaethol â phwerau gweithredol. Fodd bynnag, yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf")[1], sefydlwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y weithrediaeth a chanddo endid ar wahân i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys **Prif Weinidog Cymru**[2], **Gweinidogion Cymru**, a **Dirprwy Weinidogion Cymru** a'r **Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cynulliad Cymru**[3]. Mae Llywodraeth Cynulliad yn parhau i fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

## Prif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru yn y Cynulliad Cyntaf a'r Ail Gynulliad

Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ("Deddf 1998") yn cynnwys darpariaeth ar gyfer "Prif Ysgrifennydd" ac "Ysgrifenyddion yn y Cynulliad" yn hytrach na "Phrif Weinidog Cymru" a "Gweinidogion". Etholwyd y Prif Ysgrifennydd gan y Cynulliad. Datganolwyd y pwerau gweithredol o San Steffan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yna dirprwywyd y pwerau hynny gan y Cynulliad i'r Prif Ysgrifennydd. Maes o law, penodwyd Ysgrifenyddion yn y Cynulliad gan y Prif Ysgrifennydd ac dirprwywyd pwerau iddynt hwy. Yn gyfunol, roedd Deddf 1998 yn cyfeirio at y Prif Weinidog a'r Ysgrifenyddion yn y Cynulliad fel y "Pwyllgor Gweithredol" ond cafodd ei adnabod fel "y Cabinet" o'r cychwyn.

Wrth sefydlu'r Cynulliad, digwyddodd nifer o newidiadau a gryfhaodd natur weithredol yr ochr lywodraethol. Ym mis Chwefror 2000, penodwyd tri Dirprwy Ysgrifennydd i gynorthwyo'r Ysgrifenyddion yn y Cynulliad. Ym mis Hydref 2000, disodlwyd y term "Ysgrifenyddion" gan y term "Gweinidogion" a dechreuwyd defnyddio'r term "Prif Weinidog Cymru".

Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y byddai'r term Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol i ddisgrifio'r Cabinet a'r swyddogion,

[1] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Pennod 32)
[2] Mae'r derminoleg Gymraeg wedi'i chynnwys yn y Ddeddf
[3] Gellir gweld gwybodaeth am y Cwnsler Cyffredinol yn yr Hysbysiad hwylus Cyfansoddiadol o dan y teitl Cwnsler Cyffredinol

heblaw am y rheini sy'n gweithio i Swyddfa'r Llywydd[4]. Gwnaed hyn er mwyn pwysleisio'r rhaniad rhwng y "weithrediaeth" a'r "ddeddfwrfa".

Pan agorwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 1999, penodwyd y Gwir. Anrh. Alun Michael AS, yn Brif Ysgrifennydd. Yn dilyn ei ymddiswyddiad ym mis Chwefror 2000, fe'i dilynwyd gan y Gwir. Anrh. Rhodri Morgan AC, a gwasanaethodd fel Prif Weinidog hyd ddiwedd yr Ail Gynulliad.

## Prif Weinidog Cymru yn y Trydydd Cynulliad

Mae'r Ddeddf yn darparu i'r Frenhines benodi Prif Weinidog Cymru ar argymhelliad y Llywydd, a hynny yn dilyn pleidlais yn y Cynulliad. Mae'r Ddeddf yn nodi'r drefn i'r Cynulliad enwebu'r Prif Weinidog ac mae'n darparu i'r Cynulliad enwebu un o'i Aelodau fel Prif Weinidog, ac i'r Llywydd argymell i'r Frenhines, bod y person yn cael ei benodi.

Pe bai un o'r canlynol yn digwydd, rhaid i'r Cynulliad enwebu Aelod Cynulliad i'w benodi yn Brif Weinidog:

- cynnal pleidlais mewn etholiad cyffredinol;
- y Cynulliad yn penderfynu nad oes gan Weinidogion Cymru hyder yn y Cynulliad bellach;
- y Prif Weinidog yn cynnig ei ymddiswyddiad i'r Frenhines;
- y Prif Weinidog yn marw neu'n methu â gweithredu'n barhaol, neu'n ymddiswyddo;
- y Prif Weinidog yn peidio â bod yn aelod o'r Cynulliad am unrhyw reswm heblaw pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu (e.e drwy ymddiswyddo o'r Cynulliad).

Unwaith y bydd un o'r uchod yn digwydd, rhaid i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog o fewn **28 diwrnod** ar ôl y digwyddiad dan sylw. Os na fydd y Cynulliad yn llwyddo i wneud enwebiad o fewn y cyfnod penodol, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnig diwrnod ar gyfer cynnal etholiad cyffredinol anghyffredin.

Os bydd pleidlais o ddiffyg hyder yn erbyn y Prif Weinidog yn llwyddo yn y Cynulliad, mae'r. Ddeddf yn datgan y bydd y Prif Weinidog yn parhau yn y swydd, ac yn ymgymryd â holl swyddogaethau'r swydd a'r Gweinidogion yn gyffredinol, nes y bydd y Cynulliad yn enwebu Prif Weinidog (neu'n ail ethol yr un person fel Prif Weinidog). Felly,yn ystod y cyfnod hwnnw, gallai'r Prif Weinidog benodi Gweinidogion, pe bai hynny'n angenrheidiol, er mwyn sicrhau gweinyddiaeth effeithlon ac effeithiol.

[4] Dyma'r staff sy'n gweithio i Aelodau'r Cynulliad megis staff Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Swyddfa Gyflwyno, hynny yw, y gangen ddeddfwriaethol. Newidiwyd y term 'Swyddfa'r Llywydd' i 'Llywydd' ac yna i 'Wasanaeth Seneddol y Cynulliad'.

## Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru

Ar ôl i'r Prif Weinidog gael ei benodi gan y Frenhinies, caiff benodi Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion o blith Aelodau'r Cynulliad gyda chymeradwyaeth frenhinol. Yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban, nid oes angen i'r Cynulliad gymeradwyo'r penodiadau hyn. Mae'r Ddeddf yn gosod uchafswm ar y nifer o Weinidogion. Ni chaniateir mwy na 12 o Weinidogion a Dirprwy Weinidogion, ond nid yw hyn yn cynnwys y Prif Weinidog na'r Cwnsler Cyffredinol.

Gall y Prif Weinidog ddiswyddo Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion o'u swyddi ar unrhyw adeg a byddant yn peidio â bod yn Weinidogion os byddant yn ymddiswyddo fel Aelodau Cynulliad. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu nad oes gan y Gweinidogion hyder yn y Cynulliad, mae'r Mesur yn darparu y bydd Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion yn ymddiswyddo ar unwaith.

## Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ers mis Mai 2007, sefydlwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru fel gweithrediaeth o dan y gyfraith ac mae'n arfer pwerau o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu a gweithredu polisi, arfer amryw o swyddogaethau datganoledig a gwneud is-ddeddfwriaeth.

Yn ogystal, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud Mesurau Cynulliad.

## Atebolrwydd Gweinidogion Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn destun gwaith craffu gan y Cynulliad. Mae'r ffyrdd y caiff ei ddwyn i gyfrif yn cynnwys:

**Cwestiynau llafar:** Gall Aelodau gyflwyno cwestiynau llafar i'r Prif Weinidog, i bob Gweinidog neu i'r Cwnsler Cyffredinol, ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau penodol.

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Prif Weinidog ateb cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn am gyfanswm o 45 munud yr wythnos yn ystod tymor y Cynulliad.

Mae'n ofynnol i bob Gweinidog a'r Cwnsler Cyffredinol ateb cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn mewn perthynas â'i gyfrifoldebau, a hynny am uchafswm o 30 munud, pob pedair wythnos yn ystod tymor y Cynulliad. Gall Dirprwy Weinidogion ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog a Gweinidogion eraill.

**Pŵer i Alw:** Mae'r Ddeddf yn galluogi'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw 'berson'[5] gyfrannu at drafodion y Cynulliad i roi tystiolaeth, neu i ddarparu dogfennau sydd ym meddiant neu reolaeth y person hwnnw, sy'n ymwneud ag unrhyw fater sy'n berthnasol i waith neu swyddogaethau'r Gweinidogion a bod y person hwnnw'n ymwneud â'r swyddogaethau neu'r gweithgareddau o dan sylw mewn perthynas â Chymru.

Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru ymddangos gerbron y Cynulliad neu un o'i bwyllgorau, os oes cais yn cael ei wneud.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cysylltwch â **Dr Alys Thomas**, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (Alys.Thomas@Cymru.gsi.Gov.UK).

- Gallwch weld rhestr lawn o'n Hysbysiadau Hwylus yma.
- Geirfa

**MRS 07/07/28 Dr. Alys Thomas**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@cymru.gsi.gov.uk**

[5] Bwriedir bod gan 'person' yr un ystyr â'r hyn a welir Neddf Dehongli 1978, hynny yw, mae'n berthnasol i gyrff a swyddogion cyhoeddus, ynghŷd â chyrff preifat fel cwmnioedd, ymddiriedolaethau ac ati